Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Haf 2026



Cysylltwch os heffech stondin.

carnifaldolwyddelan@yahoo.com

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a –

Bob Valintine 01690 750 205

Kirsty Jones 07703 834 322

mentersiabod@googlemail.com

Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ


Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan – 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill

Mehefin 17



Gorffennaf 15



Awst 19



Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn . . .

Cadair Olwyn - rhodd

Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)

Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol

Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd

Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .

Bob Valintine 01690 750 205

Kirsty Jones 07703 834 322

NOSON GOFFI

Er budd
Sioe Arddio Dolwyddelan

Croeso i bawb

Nos Wener yr 12 o Fehefin am 6.30 yr hwyr

Pafilwn Cymunedol

Cadwch y dyddiad . . .
Sioe Flodau Dolwyddelan
Dydd Sadwrn 5ed o Fedi 2026, 2yp



SEFYDLIAD DPJ

Peidiwch adael eich iechyd meddwl bwyso arnoch.
Dydych chi ddim ar ben eich hun - rydym yma i helpu.



Siarad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddeilo gydag iselder ac iechyd meddwl gwael. Rydym yn cynnig sesiynau wedi cyllido gyda chwnsler (yn y Gymraeg neu'r Saesneg) o fewn wythnos o'ch cyswllt cyntaf.

0800 587 4262
TESTUN: 07860 048 799
AR AGOR 24/7
Rhif elusen gofrestredig 1173063

Cacennau

Brechdanau

Sgons

Cacenau cri

POST CARD

FOR CORRESPONDENCE FOR ADDRESS ONLY

Tea Party





I gadw bwrdd . . .
Vanda – 07765 562 546
Ian – 07907 478 892

Dyma wahoddiad i
DE PRYNHAWN
yn y Pafiliwn

Awst 1af
2.00 tan 4.00 - £10

Gwasanaeth wrth y bwrdd

Dim llawer o le felly archebwch o flaen llaw erbyn Gorffennaf 25ain

Gofod Glas.
Afon Lledr, Dolwyddelan.

Yn 1972, cynhaliodd Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg brotest ar lan yr Afon Lledr yn Nolwyddelan yn gwrthwynebu prynniant hawliau pysgota a rhannau o lan yr afon gan y Prince Albert Fishing Association o Macclesfield. Y ddadl oedd bod clybiau pysgota mawr Lloegr yn medru fforddio ysgwyddo'r gost ar gyfer trwyddedau rhad, gan brisio pysgotwyr lleol allan o bysgota ar eu hafon leol.

Pwrpas y brotest oedd codi sylw at wanhau diwylliant lleol – yn yr achos yma pysgota – a hynny yn ei dro yn arwain at wanhau Yr Iaith ac o ganlyniad y gymdeithas sydd yn ei siarad. Roedd yn ymgyrch wahanol i'r arferol gan CYI am nad oedd yn ymgymryd yn uningyrchol â mater ieithyddol megis ymgyrchoedd ffurflenni swyddogol yn Y Gymraeg neu arwyddion dwyieithog, er engraifft.

Criw bach oedd yn rhan o'r protestio, a daethant i Ddolwyddelan efo'r bwriad o dresmasu ar dîr y Gymdeithas efo gwialenau o frigau a ffyn bambŵ. Cafodd y brotest beth sylw yn y Wasg ar y pryd gan gynnwys ar Newyddion y BBC ar y teledu – mae'n aneglur os aethpwyd ymlaen i ailadrodd y syniad ar afonydd eraill yng Nghymru.

54 o flynyddoedd yn ddiweddarach mae llawer llai o bysgod yn yr Afon Lledr nac oedd yna yn 1972, a nifer aelodau'r Gymdeithas Bysgota leol hefyd bellach yn gymharol isel.

Os ydi hawl mynediad at afon i bysgota yn medru effeithio ar ddiwylliant a iaith pentre ac ardal, oni fyddai'n wir dweud yr un fath am iechyd yr afonydd yno hefyd?

Ydi llygru afonydd fel y Lledr, ac eraill yn Nyffryn Conwy yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiwylliant, arferiadau cynhenid ac ar iaith fel ag y mae yn effeithio ar natur?

Soniodd yr hanesydd Gwyn Alff yn yn *When Was Wales (1985)*, fod Cymru yn bodoli mewn stâd o angofhusdra "Half-memories, folklore … fantasy are rampant. We are a people with plenty of traditions but no historical memory."

Dadleuol efallai, ond *"collective amnesia"* yw'r term a ddefnyddir pan mae'r genhedlaeth bresennol yn arfer efo be sydd ganddynt, a newidiadau fesul 'chydig o un oes i'r llall ddim yn cael eu sylwi arnynt– mae hyn yn wir am newid mewn natur, fel ag y mae am ddiwylliant ag iaith. Hynny yw, mae'n hawdd arfer efo niferoedd llai o bysgod mewn afon os nad oes côf o doraeth ohonynt yno yn y lle cyntaf.

Rhannwyd fideo ar facebook yn ddiweddar o garffosiaeth yn cael ei

arllwys i mewn i'r Afon Conwy wrth y maes parcio ger Glasdir yn Llanrwst. Cododd hyn wrychyn llawer, a daeth galwad gan nifer i weithredu a chodi eu llais yn erbyn y fath anfadwaith gyda tua 45,000 (ar adeg sgwennu hwn) yn arwyddo deiseb i ymchwilio mewn i'r digwyddiad.

Y gwir amdani wrth gwrs yw mai dim ond un engraifft a ddigwyddodd gael ei recordio oedd hon, heb son am sawl achos arall sydd wedi bod, ac a ddaw yn y dyfodol – yn Nyffryn Conwy ac yn genedlaethol.

Eto ar facebook, cafwyd sgwrs debyg ar grŵp Dolwyddelan, sy'n dangos bod pobol yn poeni am iechyd yr afonydd. Rhaid cofio bod unrhyw beth sy'n mynd mewn i'r afon mewn un lle yn medru effeithio'r dyfroedd i fynu ac i lawr yr afon, gan gynnwys ei llednentydd a'i llynoedd – ei natur, a'i phobl.



Mae **Gofod Glas** yn edrych ar berthynas pobl â dŵr croyw yn nalgylch yr Afon Conwy a mae Dolwyddelan i weld yn le unigryw yn hyn o beth oherwydd perthynas arbennig y lle â'r Afon Lledr.

Yn mis Ebrill eleni, aethpwyd ati i sgwennu a recordio Cân Afon Lledr efo plant **Ysgol Dolwyddelan** gan ofyn ar ffurf protest, wedi ei ybrydoli gan ddigwyddiadau 1972 – BE 'DA NI ISHO? Mae'r gân, a'r atebion i'r cwestiwn yno i'w gweld isod a mae fideo o'r plant yn gorymdeithio at y Lledr efo'u gwialeni pysgota a'u protest eu hunain i'w weld ar wefan gofodglas.org



Cân Afon Lledr

Roedd yr hen Afon Lledr yn annwyl i ni!
Ei physgod cyforiog oedd yn llenwi ei lli
Mewn cwrwgl o helyg cawsom bysgod o fri
Roedd yr hen Afon Lledr yn annwyl i ni!

BE 'DA NI ISHO? *Dŵr glan!*
BE 'DA NI ISHO? *Afonydd iach!*
BE 'DA NI ISHO? *Mwy o bysgod!*

Roedd yr hen Afon Lledr yn annwyl i ni!

Mae'r hen Afon Lledr DAL yn annwyl i ni!
Ond lle mae y pysgod? Yr eogiaid di-ri?
Yw'r Afanc wedi'u cymryd, a'u llyncu o'r lli'?!
Er hyn mae'r Lledr DAL yn annwyl i ni!

BE 'DA NI ISHO? *Llwyth o anifeiliaid!*
BE 'DA NI ISHO? *Hawl i bysgota!*
BE 'DA NI ISHO? *Llai o 'sbwriel!*
Mae'r hen Afon Lledr yn annwyl i ni!

Bydd yr hen Afon Lledr yn annwyl i ni
A'i physgod yn heigio ac yn neidio ei llif
Sut gawn ni y *samon* yn ôl atom ni?
Bydd yr hen Afon Lledr yn annwyl i ni!



BE 'DA NI ISHO? *Mwy o blanhigion!*
BE 'DA NI ISHO? *Amddiffyn cynefin!*
BE 'DA NI ISHO? *Parch ir afon!*

Mae'r hen Afon Lledr yn annwyl i nil
Mae'r hen Afon Lledr yn annwyl i ni!
Mae'r hen Afon Lledr yn annwyl i ni!

Ysgol Dolwyddelan efo Gofod Glas
gofodglas.org
Ebrill 2026



Ar y wefan hefyd mae fideos a ffilmiwyd efo'r diweddar Eurwyn Roberts, Pencafnau. Un ffilm fer o Eurwyn yn cawio'r Bajar Goch, ac un sgwrs efo Eurwyn am bysgota yn yr ardal. Y bwriad oedd dod yn ôl at Eurwyn am sgyrsiau pellach, ond yn drist iawn doedd hynny ddim yn bosib erbyn hynny.

Dangoswyd y ffilmiau i'r gymuned yn ddiweddar a gobeithiwn gario'r sgwrs am ddŵr croyw ymlaen mewn ffyrdd creadigol yn Nolwyddelan, a plîs cysylltwch drwy gofodglas.org efo'ch sylwadau am hyn o beth.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn, bydd Rhodri yn dychwelyd unrhyw ddogfenau neu eitemau a fenthycwyd yn flaenorol yn fuan.



SEFYDLIAD Y MERCHED DOLWYDDELAN
DIGWYDDIAD AGORED

Mae Dolwyddelan W.I. yn gwahodd y gymuned i ddod i wrando ar sgwrs gan **Feiciau Gwaed Cymru**, ynghylch cludo gwaed, plasma a llaeth o'r fron i ysbytai a chanolfannau meddygol 24/7 ledled Cymru.



Cais cwrtais i *rai* perchnogion cŵn




Gweirglodd

Os bydd eich ci yn gwneud ei fusnes pan fyddwch yn mynd ag o am dro, yn neu o gwmpas y pentref, cofiwch fod yn gyfrifol - ei roi mewn bag a chael gwared arno'n iawn.



Stryd yr Eglwys



SPAR

Mae baw ci yn berygl iechyd i bobl, da byw ac anifeiliaid eraill. Mae'n cario bacteria a pharasitiaid niweidiol fel *Toxocara canis* (llyngyr) all achosi **dallineb**, yn enwedig mewn plant.

Mae gormod o berchnogion cyfrifol yn codi ar eich ôl CHI.



Glas Ynys

CLWB DYDD LLUN

Mae Clwb Dydd Llun Dolwyddelan fel arfer yn cyfarfod yn y Pafiliwn ar y trydydd dydd Llun o'r rhan fwyaf o fisoedd. Mae ein cyfarfod nesaf ar Fehefin 15fed, pan fyddwn yn cael sgwrs ar y 'Men's Shed'. Mae ein cyfarfodydd fel arfer yn dechrau tua 2 o'r gloch ac yn gorffen pan fyddwn yn teimlo felly. Ni fydd cyfarfod yn y Pafiliwn ym mis Gorffennaf gan ein bod yn gobeithio mynd ar ein trip blynyddol y mis hwnnw.

Yn gyffredinol, mae ein cyfarfodydd yn ymwneud â diddanu ein hunain gyda chwis llawn hwyl neu sgwrs – ac mewn cyfarfodydd eraill bydd gennym ni siaradwr gwadd. Yn y gorffennol rydym wedi cael sgyrsiau ar bynciau hynod amrywiol fel turnio, brodwaith stwmp ac Affrica ayb.

Mae paned a bisgedi, sgwrs dda a digon o chwerthin i'w ddisgwyl bob tro. Ar ein tripiau blynyddol yn y gorffennol rydym wedi bod ar daith gwch o amgylch Ynys Seiriol, ymweld â'r Amgueddfa 1950au yn Ninbych a thaith o amgylch Ynys Môn. Rydym hefyd yn cael cinio Nadolig ganol mis Rhagfyr.

Mae croeso mawr i rai newydd bob tro.

John Weedon.

NOSON VINTED – DIOLCH YN FAWR

Hoffem ddiolch i bawb ddaeth i'r noson Vinted yn y pafiliwn yn ddiweddar. Fe wnaethom godi £245 tuag at y carnifal. Rydym hefyd yn diolch i Fenter Siabod am adael inni ddefnyddio'r pafiliwn ar y noson am ddim.

Myfanwy Chapman

PAFILIWN CYMUNEDOL DOLWYDDELAN
A MENTER SIABOD

Os ydych chi erioed wedi defnyddio pafiliwn y pentref ar gyfer digwyddiad, dosbarth neu os ydych chi'n rhan o glwb cymdeithasol sy'n cyfarfod yno, fel . . .

Clwb Cinio Dydd Gwener – Clwb Ieuenctid – Gwersi Cymraeg – Clwb Dydd Llun – Cyfarfodydd WI – Grŵp Crefftau Dydd Llun

Hefyd . . . Cyfarfodydd Clwb – Digwyddiadau Codi Arian – Digwyddiadau Cymdeithasol Cymunedol a Phreifat – Partïon Teulu

Os ydych chi'n darllen y Cylchlythyr Cymunedol chwarterol neu wedi elwa o'r gwaith, grantiau neu gefnogaeth gan Fenter Siabod, buasem ni wrth ein boddau yn clywed gennych chi.

Bydd angen gwneud penderfyniadau mawr, yn y dyfodol agos iawn, ynglŷn â rhedeg y Pafiliwn Cymunedol a Menter Siabod. Fel sawl sefydliad cymunedol, rydym ni'n awyddus i ehangu ein tîm a rhannu cyfrifoldebau yn ehangach. Mae nifer fach o wirfoddolwyr ymroddedig wedi gweithio'n hynod o galed dros nifer o flynyddoedd, ac rydym bellach yn chwilio am eraill o fewn y gymuned i ddod â syniadau, sgiliau a brwdfrydedd newydd i gefnogi pennod nesaf y Pafiliwn Cymunedol a Menter Siabod.

Mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn clywed gan bobl sydd â phrofiad neu ddiddordeb mewn:

- Cefnogaeth TG a digidol
- Cyllid neu gadw llyfrau
- Gwaith gweinyddol ac ysgrifenyddol
- Gwaith cynnal a chadw a gofalu cyffredinol

Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi hyn yn hyblyg ac nid ydynt yn cymryd llawer o amser. Mae'r pwyllgor gan amlaf yn cyfarfod bob dau fis, weithiau'n fisol os bydd angen, ac mae modd rhannu llawer o'r gwaith ar draws y tîm. P'un ai eich bod yn gallu cynnig sgiliau ymarferol, cefnogaeth sefydliadol, neu ychydig o frwdfrydedd ac amser, buasem yn gwerthfawrogi bob cyfraniad yn fawr.

Os nad oes modd dod o hyd i wirfoddolwyr newydd, mae posibilrwydd mawr na fydd y Pafiliwn Cymunedol a Menter Siabod yn gallu parhau; bydd hi'n ddiwrnod trist iawn os bydd Dolwyddelan yn colli'r holl bethau y mae'r Pafiliwn Cymunedol a Menter Siabod yn ei ddarparu i drigolion.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

chairmentersiabod@gmail.com bobandnen@btinternet.com
secretarymentersiabod@gmail.com shaunhewitt@me.com

DOLWYDDELAN YN Y GWANWYN gan Lloyd C. Mason-Boardman

Wrth symud i Ddolwyddelan y llynedd, roddem ni'n gwybod ein bod ni'n dod i rywle hardd. Roeddem ni wedi gweld y mynyddoedd yn y gaeaf, edmygu'r awyr ddramatig a dysgu'n gyflym bod bywyd yma yn dod gyda digon o dywydd - yn aml i gyd yn yr un prynhawn. Ond ni wnaeth unrhyw beth ein paratoi ar gyfer profi ein gwanwyn cyntaf yn y pentref.

Mae'r Gwanwyn yma yn teimlo'n wahanol rywsut. Mae'n cyrraedd yn araf ac yn dawel cyn datgelu ei hun mwyaf sydyn ar unwaith.

Ar ôl misoedd o law'r gaeaf a'r bryniau wedi'u lapio mewn niwl, roedd yr arwyddion cyntaf yn hawdd i'w colli. Ymddangosodd flagur bach ar ganghennau, daeth y boreau goleuach drwy'r llenni ac yna, bron iawn dros nos, roedd y coed yn flodeuog.

Fel rhai newydd i'r pentref, mae wedi bod yn hollol syfrdanol.

Roedd coed oedd dim ond ychydig wythnosau ynghynt yn edrych yn noeth ac wedi'u curo gan y tywydd mwyaf sydyn wedi blaguro yn gymylau o flodau gwyn a phinc golau. Mae cerdded o gwmpas y pentref neu yrru ar hyd y lonydd wedi teimlo fel gwylio natur yn deffro go iawn. Hyd yn oed ar foreau dwl, mae'r blodau yn goleuo popeth o'u cwmpas, gan sefyll allan yn erbyn y toeau llechi, waliau cerrig ac awyr ddramatig.

Wrth gwrs, gan ein bod yng ngogledd Cymru, mae'r gwanwyn hefyd yn dod gyda glaw. Llawer o law.

Roeddem ni wedi cael ein rhybuddio bod y tywydd yma yn gallu bod "ychydig yn damp", ond efallai ein bod wedi tanseilio yn union beth oedd hynny'n ei olygu. Bu dyddiau lle'r oedd y glaw yn ymddangos yn benderfynol o beidio â stopio - glaw mân yn troi'n gawodydd trwm cyn dychwelyd yn dawel eto erbyn amser te. Mae cotiau wedi bod yn hongian yn barhaol yn sychu ger gwresogyddion a'r sgyrsiau ymhob man yn dechrau gyda sylwadau am y rhagolygon diweddaraf.

Ac eto, rywsut, mae'r glaw bron iawn yn ymddangos yn rhan o harddwch y gwanwyn yma. Mae'r bryniau yn edrych yn wyrddach oherwydd hynny. Mae'r nentydd i'w clywed yn rhuthro'n uwch trwy'r dyffryn. Mae mwsogl yn disgleirio yn erbyn waliau cerrig hynafol. Mae popeth yn teimlo'n fyw.

Ac yna daeth y tri diwrnod gogoneddus hynny o heulwen.

Ar ôl wythnosau o awyr lwyd, bu i'r pentref drawsnewid bron yn syth. Agorodd y drysau a'r ffenestri. Daeth y peiriannau torri glaswellt i'r golwg. Roedd pobl yn eistedd y tu allan i'r dafarn ac ar feinciau, yn wynebu tua'r haul fel petaent yn ceisio gwneud y gorau o bob eiliad o gynhesrwydd cyn i'r tywydd newid ei feddwl eto.

I ni, fe roddodd yr ychydig ddyddiau heulog hynny gipolwg cyntaf inni ar sut y gallai ein haf llawn cyntaf fod yn Nolwyddelan. Roedd y mynyddoedd yn edrych yn feddalach rywsut o dan awyr las a hyd yn oed teithiau cerdded cyfarwydd mwyaf sydyn yn hollol wahanol yng ngholau'r haul.

Efallai mai'r llawenydd mwyaf o'r gwanwyn cyntaf hwn, fodd bynnag, oedd gweld y bywyd gwyllt yn dychwelyd.

Mae pob bore bellach yn dechrau gyda'r adar yn canu – a brefu ŵyn bach a defaid. Mae'r robin, adar duon, dryw bach a dychweliad disgwyliedig y gwcw yn darparu trac sain o doriad y wawr ymlaen. Un o'r adegau mwyaf cyffrous oedd gweld bod y gwenoliaid wedi dychwelyd, yn hedfan yn ddiymdrech drwy'r awyr fel petaent yn cyhoeddi bod y gaeaf wedi llacio ei afael ar y dyffryn o'r diwedd.

Mae'r ŵyn bach yn y caeau cyfagos wedi dod ag adloniant diddiwedd hefyd. Mae rhywbeth sy'n codi'ch calon am eu gwylio yn rasio o amgylch y caeau yn gwbl rydd, yn llawn egni waeth pa mor wlyb fydd y ddaear.

Rydym ni hefyd bellach wedi profi'r traddodiad pentref rhyfeddol sef Bingo Wyna. Mae'r ffermwraig leol, Emma, yn marcio rhifau ar ddefaid beichiog penodol, mae'r trigolion yn prynu cardiau bingo, a daw diweddariadau drwy grŵp WhatsApp y pentref yn cyhoeddi rhif y defaid sydd wedi rhoi genedigaeth.Fel rhai newydd i'r pentref, fe wnaethom ni gymryd y byddai hyn yn ffordd fach neis o godi arian i'r ysgol.Doeddem ni ddim yn barod ar gyfer dwyster emosiynol yr holl beth.

O fewn diwrnodau, roeddem ni wedi buddsoddi'n ddwfn yn llwyddiant atgenhedlu defaid nad oeddem ni erioed wedi'u cyfarfod. Roedd pob neges ar WhatsApp bellach yn arwyddocaol iawn. Oedd rhif 14 o'r diwedd ar fin rhoi genedigaeth? Oedd 27 wedi cael gefeilliaid? Pam oedd 32 yn cymryd cyhyd? Ar un adeg, roedd yr holl gynnwrf yn llethol ac fe wnes i wirioneddol ystyried cymryd Kalms cyn agor y negeseuon. Ac eto, y cymysgedd hwn o anrhefn cefn gwlad, hiwmor ac ysbryd cymunedol ydy'r union beth sydd wedi gwneud ein gwanwyn cyntaf yma yn un mor gofiadwy.

Mae hyd yn oed ein gardd, oedd yn edrych braidd yn flinedig pan gyrhaeddon ni gyntaf, yn dechrau datgelu ambell i syrpreis. Mae blodau wedi ymddangos lle o'r blaen dim ond mwd ac ansicrwydd oedd yno, ac mae'n ymddangos bod rhywbeth newydd yn blodeuo gyda phob wythnos. Yr hyn sydd wedi ein taro ni fwyaf ydy pa mor gysylltiedig mae'r pentref yn teimlo â'r tymhorau sy'n newid. Mewn llawer o leoedd, gall y gwanwyn fynd heibio bron yn ddisylw. Yma, fodd bynnag, mae natur yn teimlo'n amhosibl ei anwybyddu. Mae'r mynyddoedd, y glaw, y blodau a'r golau sy'n newid i gyd yn siapio bywyd bob dydd mewn ffordd sy'n teimlo'n gysurus iawn. Do, mae'r glaw wedi disgyn yn ddiddiwedd, ac mae dillad dal dŵr wedi bod yn hanfodol. Ond ochr yn ochr â hynny mae harddwch eithriadol, cynhesrwydd gan y gymuned ac ymdeimlad pwerus o natur yn ailddeffro o'n cwmpas.

Ac os ydy'r gwanwyn cyntaf hwn wedi dysgu rhywbeth inni, ydy nad ydy Dolwyddelan yn profi'r tymhorau yn unig - mae'n eu byw yn llawn.

Newyddion Diweddaraf ar Gapel Hanesyddol Bethel, Dolwyddelan


Mae Grŵp Gweithredu Bethel yn parhau i frwydro ymlaen gyda chaffael Capel Bethel, sy'n gapel rhestredig ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'i drawsnewid yn ased cymunedol arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys archwilio dulliau o godi arian yn barod, codi ymwybyddiaeth a recriwtio mwy o aelodau.

Wrth inni aros yn nwylo cyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr a'u banc i weld y gweithredoedd ac ystyried ffordd ymlaen i gaffael yr adeilad, mae syniadau pellach yn dod i'r meddwl, gyda'r adeilad wedi'i adael yn ei gyflwr presennol, ansicr.

Mae angen gosod estyllod ar y ffenestri sydd wedi'u difrodi cyn gynted â phosibl er mwyn diogelu'r tu mewn rhag y tywydd a fandaliaeth. Mae awgrym wedi bod i ddefnyddio'r estyllod hyn fel man hysbysebu gan felly gefnogi busnesau lleol a helpu i godi arian tuag at gynnal a chadw ac adnewyddu cyn ac yn ystod y gwaith ar yr adeilad. Mae angen tacluso'r gerddi ynghyd â'r sbwriel a'r biniau sbwriel gorlawn. Mae gennym ni wirfoddolwyr a deunyddiau ond ni allwn ni weithredu nes ein bod yn derbyn caniatâd i wneud hynny gan yr awdurdodau priodol.

Dyma ategu'r manteision allai'r prosiect hwn eu darparu i Ddolwyddelan . . .

Tai fforddiadwy.
Ennill refeniw trwy rentu gofod at ddibenion arddangos, beirdd preswyl, siop atgyweirio a dulliau eraill.
Man cyfarfod i'r grŵp ieuenctid.
Arddangosfa o hanes Dolwyddelan gan gynnwys arteffactau.
Posibilrwydd i'r cyfleuster fod ar agor ac yng ngofal staff bob dydd.
Rhandiroedd a gweithgareddau awyr agored.
Y gallu i ddarparu ar gyfer grwpiau mawr.
Canolfan lles gan gynnwys ffisiotherapi.
Darparu canolfan dreftadaeth hanesyddol.
Oriel ac adran crefftwyr lleol.
Canolfan Groeso.
Maes parcio gyda phwyntiau gwefru ceir.
Cyfleusterau a thai i'r henoed.



Gwefan: bethel-action-group.jimdosite.com
Facebook: Grŵp Bethel

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch â ni. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf?

Cysylltwch. . .

Ysgrifennydd: Helena Wróblewska, 07828761114 Helena_w@btinternet.com
Cadeirydd: Richard Griffin, 07736 059925 Richard_griffin@btinternet.com
Trysorydd: Jon Reynolds, 07722 040778 Jon1reynolds@outlook.com

Cyngor Cymuned Dolwyddelan 2026/27

Cysylltu ag unrhyw un o'n Cynghorwyr Cymuned . . .

Cadeirydd: Carwyn L. Price - Gelli'r Ddol, Dolwyddelan, LL25 0JD
Ebost: nicolaprice768@btinternet.com Ffôn: 01690750366

Is-gadeirydd: Mike Skerrett - Caldy Villa, Pont y Pant, Dolwyddelan, LL25 0PJ Ebost: m.skerrett@btinternet.com Ffôn:07973288350

Edwin R. Noble - Ffridd, Dolwyddelan, LL25 0JQ
Ebost: Noblebrother259@gmail.com Ffôn: 07557132767

Teleri W. Jones - Pant y Ffridd, Dolwyddelan, LL25 0UX
Ebost: twj2@btinternet.com Ffôn: 01690750499

Connie Brewer - Bron Fedw, Dolwyddelan, LL25 0JB
Ebost: bron.fedw@btinternet.com Ffôn: 01690750211

Kaya H. Musgrove - 9 Maes y Llan, Dolwyddelan, LL25 0SQ
Ebost: moomin8804@yahoo.co.uk Ffôn: 07422509834

Iwan W. Griffiths - 6 Castle Terrace, Dolwyddelan, LL25 0NJ
Ebost: iwanwynne@aol.com Ffôn: 07702641437

Cynghorydd Sir Conwy: - **Elizabeth Roberts** – Fron Cottage, Dolwyddelan, LL25 0NQ. Ebost: cllr.liz.roberts@conwy.gov.uk
Ffôn: 01690750246

Clerc y Cyngor Cymuned: Simon Shutler - 1 Bryn Moel Dolwyddelan LL25 0EZ Ebost: clerk@dolwyddelancc.org.uk
Ffôn: 07792 912646

Gwefan: dolwyddelancc.org.uk

Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan yn chwarae rhan bwysig mewn democratiaeth leol fel yr haen fwyaf lleol o gynrychiolaeth etholedig. Mae'n cynnwys pobl sydd â meddwl o'u cymuned ac eisiau gwneud eu hardal yn lle gwell i fyw ynddo.
Prif rôl a swyddogaeth y Cyngor Cymuned ydy gweithredu fel corff cynrychioladol sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon y gymuned tra hefyd yn rheoli adnoddau, gan weithredu polisïau i wella ansawdd bywyd wrth hwyluso ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo lles ein cymuned.

Tri Phersbectif ar Ddyfodol Ein Pentref

Adeiladu curiad calon cymunedol: Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig

Mae yna newid seicolegol dwfn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn symud o anhysbysrwydd dinas i fywyd clos pentref gwledig fel Dolwyddelan (ac rydw i wedi byw yn y ddau). Mewn byd cynyddol dameidiog, mae byw mewn ardal wledig yn rhoi cyfle i ddychwelyd i rywbeth hynafol a hanfodol: y profiad o fyw fel llwyth.

Nid ydy'r cysyniad o 'lwyth' yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â chael eich eithrio, ond am ddibyniaeth ddofn ar eich gilydd. Mewn cymuned fach, nid ydy eich cymdogion yn bobl sy'n digwydd byw gerllaw; nhw ydy'r bobl rydych chi'n dibynnu arnyn nhw pan fydd yr eira yn disgyn yn drwm ar Fwlch y Crimea, neu pan fydd rhywun angen cynorthwyydd defnyddiol lleol. Mae'r rhyng-ddibyniaeth hon yn meithrin lefel o gysylltiad cymdeithasol gaiff ei golli yn aml mewn amgylcheddau trefol.

Mae seicolegwyr a chymdeithasegwyr yn nodi bod bodau dynol wedi'u gwifro yn sylfaenol ar gyfer y ffordd hon o fyw. Fe wnaethon ni esblygu mewn grwpiau bach lle'r oedd gan bawb rôl, ac roedd pawb yn adnabod pawb. Mae'r unigrwydd sy'n plagio cymdeithas fodern yn symptomau rheolaidd o fyw y tu allan i'r strwythur cymdeithasol naturiol hwn. Yn Nolwyddelan, mae'r ddeinameg lwythol yn amlwg ym mha mor gyflym y mae newyddion yn teithio, pa mor hawdd y caiff help llaw ei gynnig, a pha mor ddwfn y bydd pawb yn teimlo colled trigolyn.

Mae'r perthyn llwythol hwn yn darparu clustog bwerus yn erbyn heriau iechyd meddwl. Mae gwybod eich bod chi'n rhan o gymundod, bod eich presenoldeb yn bwysig, a bod gennych chi rwydwaith cymorth wrth law, yn creu ymdeimlad dwfn o ddiogelwch seicolegol. Dyma'r gwahaniaeth rhwng dim ond byw mewn lle a gwirioneddol perthyn iddo.

Mae croesawu'r agwedd lwythol hon ar fywyd gwledig yn golygu cymryd rhan weithredol yn y cymundod lles. Mae'n golygu cymryd rhan yng ngwaith tacluso'r pentref, cefnogi'r siop leol a galw heibio i'r henoed yn ystod y gaeaf neu gyfarfod yn ein cyfarfodydd hwb cynnes. Mae'n ein hatgoffa bod ein gwytnwch unigol wedi'i gysylltu'n annatod â gwytnwch y gymuned gyfan.

Ymdrochi yn y Goedwig: Mae rhai gwledydd yn ei ragnodi, rydym ni'n ei fyw

Dychmygwch driniaeth feddygol sy'n gostwng pwysedd gwaed, yn lleihau hormonau straen, yn rhoi hwb i'r system imiwnedd, ac yn lleddfu gorbryder, i gyd heb yr un bilsen: mae'n swnio fel perffeithrwydd. Yn Japan, nid senario damcaniaethol ydy hwn, mae'n gonglfaen gofal iechyd cenedlaethol o'r enw *shinrin-yoku*, neu 'ymdrochi yn y goedwig.'

Ers y 1980au, mae llywodraeth Japan wedi buddsoddi'n helaeth mewn ymchwilio a hyrwyddo manteision iechyd treulio amser ystyriol mewn coedwigoedd. Mae'r wyddoniaeth yn gymhellol. Mae coed yn rhyddhau olewon hanfodol anweddol o'r enw phytoncides, sydd â phriodweddau gwrthficrobaidd. Mae astudiaethau wedi dangos bod anadlu'r cyfansoddion hyn yn cynyddu nifer a gweithgaredd celloedd lladd naturiol ein corff yn sylweddol, sy'n ymladd firysau a chlefydau. Ar ben hynny, mae'r weithred syml o ymgolli mewn amgylchedd coetir wedi'i brofi i leihau lefelau cortisol ac yn tawelu'r system nerfol.

Mae llwyddiant *shinrin-yoku* wedi y sbrydoli symudiad byd-eang. Mewn

gwledydd fel De Corea, y Ffindir a'r Unol Daleithiau, mae meddygon bellach yn cyhoeddi "presgripsiynau natur", yn cyfarwyddo cleifion yn ffurfiol i dreulio amser mewn parciau a choedwigoedd lleol i frwydro yn erbyn clefydau cronig a materion iechyd meddwl.

Yma yn Nolwyddelan, does dim angen presgripsiwn arnom; rydym yn byw yn y fferyllfa. Wedi'i swatio yn Nyffryn Lledr ac wedi'i amgylchynu gan Barc Coedwig Gwydir a bryniau'r Moelwynion, mae gennym fynediad uniongyrchol at rai o'r amgylcheddau mwyaf adferol yn y byd. Boed yn daith gerdded trwy'r coetiroedd hynafol tuag at Foel Siabod, neu foment dawel yng Nghwm Penamnen, mae manteision therapiwtig natur ar garreg ein drws.

Nid ydy ymdrochi yn y goedwig yn ymwneud â heicio at ddibenion ffitrwydd neu adnabod planhigion; mae'n ymwneud ag arafu ac ymgysylltu â'r holl synhwyrau. Mae'n ymwneud â sylwi ar y golau brithliw trwy'r canopi, sŵn y gwynt yn y canghennau, ac arogl y ddaear tamp. Wrth inni lywio straen bywyd modern, rhaid inni gofio defnyddio'r adnodd naturiol anhygoel sy'n amgylchynu ein pentref. Yr hyn y mae gweddill y byd newydd ddechrau ei ragnodi, mae gennym ni'r fraint o'i fyw bob dydd.

Y Dafarn fel Curiad Calon y Gymuned: Y Gwydyr wrth ei Chalon

Yng nghefn gwlad Prydain, mae'r dafarn leol bob amser wedi bod yn fwy na lle i brynu peint. Dyma'r rhwydwaith cymdeithasol gwreiddiol, neuadd anffurfiol y dref a baromedr iechyd y pentref. Wrth i ystadegau cenedlaethol ddangos dirywiad pryderus mewn tafarndai gwledig, gyda miloedd yn cau dros y degawd diwethaf, tydy pwysigrwydd cadw'r angorau cymunedol hyn erioed wedi bod yn gliriach.

Fe wnaeth ymchwil ddiweddar gan y sefydliad nid-er-elw 'Pub is The Hub' feintioli'r effaith hon, gan ddatgelu bod £8.28 o werth cymdeithasol yn cael ei greu ar gyfartaledd am bob £1 gaiff ei wario a'i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol mewn tafarndai. Mae tafarndai yn brwydro yn erbyn ynysu cymdeithasol, yn meithrin cydlyniant cymunedol, ac yn darparu gofod diogel, niwtral lle gall gwahanol gylchoedd y pentref orgyffwrdd.

Yn Nolwyddelan, rydym yn ffodus i gael Gwesty'r Gwydyr. Perl a dyfodd ochr yn ochr ag ehangiad chwarel llechi'r pentref, mae'r Gwydyr yn dirnod digamsyniol. Ond, nid ydy ei wir werth yn ei hanes, ond yn ei rôl bresennol fel canolfan groesawgar i bobl leol, cerddwyr a theithwyr fel ei gilydd.

O dan stiwardiaeth Namthip ac Urien, mae'r Gwydyr wedi meithrin cymeriad traddodiadol, cynnes ac ychydig yn fympwyol. Mae'n rhywle ble mae Gwlad Thai yn cwrdd â Chymru. Mae'r cyfuniad hwn yn adlewyrchu ymagwedd fodern a chynhwysol at letygarwch gwledig, un sy'n anrhydeddu treftadaeth leol wrth groesawu blasau a syniadau newydd.

Boed yn gynnal nosweithiau bwyd, noson blasu gwin neu gynnig stop cyfeillgar i feicwyr sy'n taclo'r mynyddoedd neu gynnig dân cynnes ar noson wlyb o aeaf, mae'r Gwydyr yn enghraifft o 'dafarn leol iawn'. Dyma ble caiff newyddion ei rannu, lle caiff pobl newydd eu croesawu a ble caiff cysylltiadau llwythol ein pentref eu hatgyfnerthu dros bryd o fwyd. Nid ydy cefnogi ein tafarn leol yn ymwneud â mwynhau noson allan dda yn unig, mae'n fuddsoddiad gweithredol yng ngwead cymdeithasol ein pentref.

Mike Hewitt

JMS PORSCHE North Wales

Porsche specialist but able to cater for all makes & models of vehicles. We can carry out all level of work. Diagnostics, servicing including gearbox servicing, brakes, suspension & clutch replacement.

We offer a 10% discount on labour to anyone in the Dolwyddelan area!

Tel: 07802 44 22 85

Email: jmsporschewales@gmail.com

Find us on Google maps or Facebook: search JMS Porsche North Wales

Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alison richmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard

10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

GARY 'LOGS' EDWARDS

LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093



SPORTS THERAPY JW SPORTS THERAPY

The Old Surgery,
Church Street,
Dolwyddelan
LL25 0SJ

Injury Assessment, Treatment & Rehabilitation Sports Massage.

To Book Appointments:

Phone: 07548221712
Email: JWsportstherapy9@gmail.com

Bodhi MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Carrie & Mike look forward to welcoming you to

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION

Pont-y-pant

Plas Penaeldroch Manor
Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ **Tel:** 01690 750 316

For information - **Website:**
www.penaeldroch.co.uk

'Celebrating 10 years, and still rebuilding'
Follow our restoration blog:
www.penaeldroch.co.uk/blog

Local Artist

Helena Z Wróblewska

Mobile: 07828 761114
Email: HZWDesigns@ProtonMail.com
Website: www.hzwdesigns.com



Personal Commissions
Hand Painted Welsh Slate
Watercolour & Ink Whimsical Paintings
Acrylic Paintings & Portraits

ILD

PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs

Gwefan: www.ildcattlegrids.co.uk
www.ildengineering.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557